# <u>Trefniadau Iechyd a Diogelwch</u>

Gwneir pob ymdrech i sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer disgyblion yr ysgol. Maebuarth yr ysgol wedi ei amgau ac fe ddiogelir yr adeilad gan gyfuniad o gloeon digidol ac arferol. Archwilirsafle'r ysgol yn gan y Llywodraethwyr a swyddogion y Cyngor Sir er mwyn sicrhaurhaglen gynnal a chadw briodol ac fe brofir yr offer trydan, y larwm a'r offer atal tân ynflynyddol.

Ein nôd yw creu amgylchedd ddiogel i bawb weithio a byw ynddi gan sicrhau arolygaeth briodol yn ôl y galw ac hefyd i greu ymwybyddiaeth mewn plant o bwysigrwydd diogelwch.